OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2378 (Cy.251)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Medi 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 19 Hydref 2011.

**Ffioedd mewn perthynas â'r cynllun iechyd dofednod**

**2.**—(1) Y ffi am gymeradwyaeth at ddibenion y cynllun iechyd dofednod a sefydlwyd o dan baragraff 4 o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**2**) yw £60 am gymeradwyaeth ddechreuol, ynghyd â ffi flynyddol o—

(a) £62 ar gyfer haid neu ddeorfa; neu

(b) £70 ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa ar un safle.

(2) Os cyflawnir yr arolygiad blynyddol o dan y paragraff hwnnw gan swyddog Gweinidogion Cymru, y ffi am bob arolygiad (yn ychwanegol at y ffi flynyddol) yw—

(a) £97 ar gyfer haid neu ddeorfa; neu

(b) £143 ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa ar un safle.

(3) Y ffi am gymeradwyo, o dan y paragraff hwnnw, labordy sy'n cynnal profion diagnostig ar gyfer aelodau o'r cynllun iechyd dofednod yw—

(a) £13 am brosesu cais am gymeradwyaeth; a

(b) £31 am brosesu dogfennaeth gofrestru flynyddol.

(**1**) 1973 p.51. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**2**) O.S. 2011/2379 (Cy.252).

**Ffi am brofi hyfedredd labordy**

**3.** Mae'r ffi sy'n daladwy gan labordy cymeradwy am y profion hyfedredd canlynol a gynhelir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol o dan baragraff 2 o Atodiad I i Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC (ar amodau iechyd anifeiliaid, sy'n llywodraethu'r fasnach mewn dofednod ac wyau deor o fewn y Gymuned, a mewnforion dofednod ac wyau deor o drydydd gwledydd(**3**)) fel a ganlyn.

**Tabl 1**

| *Prawf hyfedredd* | *Ffi(£)* |
|---|---|
| Bacterioleg Salmonella (pullorum, gallinarum, arizonae) | 131 |
| Seroleg Salmonella (pullorum, gallinarum) | 336 |
| Seroleg ieir Mycoplasma (gallisepticum) | 336 |
| Meithriniad Mycoplasma (gallisepticum a meleagridis) | 281 |
| Seroleg tyrcïod Mycoplasma (gallisepticum a meleagridis) | 336 |

**Amser talu**

**4.** Mae'r ffioedd yn daladwy i Weinidogion Cymru pan ofynnir am y tâl.

*John Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

28 Medi 2011

(**3**) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t. 74.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod y ffioedd am gymeradwyaethau at ddibenion y cynllun iechyd dofednod a sefydlwyd o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC ar 30 Tachwedd 2009 ar amodau iechyd anifeiliaid, sy'n llywodraethu'r fasnach mewn dofednod ac wyau deor o fewn y Gymuned a mewnforion dofednod ac wyau deor o drydydd gwledydd (OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t.74) a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, oherwydd na ragwelir unrhyw effaith newydd ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.